

**CYNGOR SIR FYNWY**  
**CAIS AM GLUDIANT CARTREF I'R YSGOL RHAD AC AM DDIM**  
**YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD**  
**BLWYDDYN ACADEMAIDD 2017/2018**

**Ymgeiswyr Ysgol Uwchradd yn unig**  
 Rhowch ffotograff maint pasbort yma a rhoi enw'r disgybl, enw'r ysgol a dyddiad geni ar y cefn er mwyn ei gwneud yn bosibl cyhoeddi pas bws ar gyfer teithio

Dim ond os ydych yn talu eich Treth Gyngor i Gyngor Sir Fynwy y dylid llenwi'r ffurflen yma.

**LLENWCH FANYLION Y DISGYBL MEWN LLYTHRENAU BRAS OS GWELWCH YN DDA**

Cyfenw			
Enw(au) Cyntaf			
Cyfeiriad			
		Cod Post	
Cyfeiriad E-bost Rhiant/gwarcheidwad			
Rhif Ffôn Cartref/symudol		Dyddiad Geni'r Disgybl	/ /
Enw'r Ysgol y bydd y Disgybl angen cludiant iddi		Grŵp Blwyddyn	
Rhyw	Gwryw <input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> (Ticiwch y blwch perthnasol)		

A oes brawd neu chwaer i'r plentyn yn defnyddio cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd? Enw: \_\_\_\_\_

A oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion arbennig ac angen trefniadau cludiant arbennig? OES / NA

Dyddiad y mae angen cludiant ohono: \_\_\_\_\_

**AR GYFER DEFNYDD SWYDDFA YN UNIG**

Enw'r Contractwr		Rhif Contract	
Enw Contractwr Bwydo		Rhif Contract	

Tu allan i'r dalgylch:	le / Na		
Ysgol agosaf	le / Na		
Maen prawf pellter	le / Na	Swyddog Asesu:	
Milltiroedd		Dodi ar CTX:	
Ysgol dalgylch:		Cyhoeddi Pas Bws:	
Cyhoeddi llythyr gwrthod:		Cyhoeddi Llythyr Cadarnhau:	

Cadarnhaf fod y datganiadau a wnaed yn y ddogfen yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a fy nghred ac rwyf wedi darllen a deall y nodiadau cludiant a atodir.

**Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad:** \_\_\_\_\_ **Dyddiad:** \_\_\_\_\_  
**Llenwer a llofnodi Contract Rhiant ar ochr arall y ddalen**



## CLUDIANT YSGOL - CONTRACT RHIANT (F2.0)

Gwneir y cytundeb hwn a bydd yn weithredol i bob teithiwr y dyfarnwyd Cludiant Cartref i'r Ysgol iddo.

**RHWNG** Cyngor Sir Fynwy, Uned Cludiant Teithwyr ("yr Uned Cludiant Neithiwr")

**Yng nghyswllt (Printiwch yr enw llawn):**

( \_\_\_\_\_ ) (**“y Disgybl”**)

a

( \_\_\_\_\_ ) (**“y Rhiant/Gwarcheidwad”**) i'r uchod

### DATGANIAD

1. Cadarnhaf fy mod yn Rhiant/Gwarcheidwad y Disgybl a enwir yn y cais hwn.
2. Rwy'n gwneud cais am ddarparu Cludiant Cartref i'r Ysgol ar gyfer y Disgybl a enwir yn y cais hwn i'r ysgol/sefydliad addysgol a enwir.
3. Rwyf wedi darllen, deall a chytuno gyda'r cynnwys yn y 'Llyfr Rheolau' Uned Cludiant Teithwyr a thelerau ac amodau'r contract hwn.
4. Rwy'n cytuno trafod cynnwys y 'Llyfr Rheolau' a'r Contract gyda'r Disgybl a sicrhau fod y Disgybl yn deall y rheolau sy'n berthnasol iddo/iddi.
5. Byddaf yn esbonio ei hawliau cyfreithiol i'r Disgybl a hefyd ei oblygiadau cyfreithiol a sicrhau ei bod yn deall y gellir eu herlyn pe byddent yn camymddwyn tra'n mynd ar, teithio a disgyn oddi ar gludiant ysgol y gall darpariaeth cludiant gael ei dileu'n llwyr neu eu gohirio ac yn yr amgylchiadau efallai na fyddir yn darparu dull arall o gludiant i'r Disgybl.
6. Deallaf os caiff y Disgybl unrhyw broblemau ar y daith i'r ysgol y bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn delio gyda hyn yn brydlon a gwneud popeth rhesymol bosibl i unioni'r sefyllfa.
7. Deallaf a derbynaf os yw'r Disgybl yn camymddwyn pan fyddant yn mynd ar y bws, yn teithio ar y bws neu'n gadael y bws y gall darpariaeth cludiant gael ei ddileu'n llwyr neu ei ohirio ac yn yr amgylchiadau efallai na ddarperir dull arall o gludiant i'r Disgybl.
8. Byddaf yn cefnogi unrhyw raglen hyfforddiant y mae'r Uned Cludiant Teithwyr yn ei gyflwyno yn ei ymdrech barhaus i wella diogelwch y Disgyblion ar gludiant ysgol.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Fynwy, Uned Cludiant Teithwyr

Richard Cope

Rheolwr Busnes (Cludiant Teithwyr a Strategaeth Cludiant), Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr

**Mae'n rhaid i'r contract hwn, ffurflen cludiant a ffotograff maint pasport gael ei llenwi, llofnodi a'u dychwelyd i'r Uned Cludiant Teithwyr, Cyngor Sir Fynwy, Blwch SP 106, Cil-y-coed neu eu e-bostio at**

**[passengertransportunit@monmouthshire.gov.uk](mailto:passengertransportunit@monmouthshire.gov.uk)**

**Gellir e-bostio'r ffotograff maint pasport at [passengertransportunitphotos@monmouthshire.gov.uk](mailto:passengertransportunitphotos@monmouthshire.gov.uk)**

**Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ffoniwch 01633 644777.**

**DYLID NODI NA CHAIFF CEISIADAU DISGYBLION YSGOL UWCHRADD HEB FFOTOGRAFFAU EU PROSESU**

## **CEFNDIR CYTUNDEB CONTRACT RHINI**

1. Diben y contract yma yw sicrhau y caiff pob disgybl, gyrrwr, hebryngwyr a holl ddefnyddwyr eraill y ffordd y daith fwyaf diogel.
2. Mae'r Uned Cludiant Teithwyr yn darparu cludiant i ddisgyblion fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Addysg 1996 ac mewn cysylltiad gyda'r Polisi Cludiant Cartref i Ysgol.
3. Bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn sicrhau'r dull priodol o gludiant ar gyfer y daith ysgol, gan weithredu mesurau rheoli ansawdd ac asesu risg, i sicrhau diogelwch pawb ar y cerbydau yn cynnwys y disgyblion, gyrrwr, hebryngwyr ac aelodau'r cyhoedd.
4. Mae'r Uned Cludiant Teithwyr wedi cynhyrchu a mabwysiadu 'Llyfr Rheolau' sy'n cynnwys manylion hawliau a chyfrifoldebau rhieni a disgyblion a chanlyniadau methiant i weithredu yn unol â'r set yma o reolau. Gweithredir y 'Llyfr Rheolau' pan ystyrir yn angenrheidiol yn dilyn torri rheolau, anrhefn neu ymddygiad amhriodol. Gall hyn, yn ei dro, arwain at i gludiant gael ei ddileu am gyfnod ar gyfer y disgybl(ion) sy'n gysylltiedig.
5. Drwy lenwi a llofnodi'r datganiad yma, bydd unrhyw ddyfarniad o Gludiant Cartref i Ysgol yn cydnabod contract sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhwng yr Uned Cludiant Teithwyr a'r Rhiant/Gwarcheidwad.
6. O fewn cytundeb partneriaeth, mae'r wybodaeth a roddir islaw'n berthnasol i bob rhiant, gwarcheidwad, disgyblion a'r Uned Cludiant Teithwyr.

## **TELERAU AC AMODAU CONTRACT**

### **Bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn:**

- Darparu cludiant ysgol ar gyfer disgyblion sydd â hawl statudol.
- Darparu cludiant ysgol ar gyfer disgyblion y dyfarnwyd sedd ratach neu ar ddisgresiwn iddynt.
- Darparu cludiant sy'n cyflawni pob gofyniad cyfreithiol.
- Monitro gweithredwyr cludiant, gyrrwr, hebryngwyr, disgyblion ac ysgolion i sicrhau fod pob un ohonynt yn cydymffurfio gyda pholisïau cludiant ysgol yr Uned Cludiant Teithwyr a'r 'Llyfr Rheolau' sy'n cyd-fynd â hynny.
- Darparu copi am ddim o'r 'Llyfr Rheolau' i rieni/gwarcheidwaid.
- Ymchwilio'n llawn unrhyw gwynion gan riant/gwarcheidwad a gwneud hynny yn unol â gweithdrefn gwynion yr Awdurdod.
- Darparu rhaglen hyfforddiant gyrrwr i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarparwn.
- Cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau fod iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth ac os oes angen, gall drwy ymgynghoriad, ddileu darpariaeth cludiant ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n lleihau eu diogelwch eu hunain, y gyrrwr, hebryngydd, unrhyw deithiwr arall neu unrhyw ddefnyddiwr ffordd arall.
- Defnyddio lluniau teledu cylch cyfyng, lle mae hynny wedi'i osod ar gael ar gerbydau cludiant Cartref i Ysgol, i gefnogi unrhyw ymgyfraniad disgybl gyda'r digwyddiad neu gŵyn.
- Rhoi cyngor a gwybodaeth am gludiant ysgol os gofynnir am hynny.

### **Yng ngolwg unrhyw gludiant a ddyfernir gan yr Uned Cludiant Teithwyr, bydd y Rhiant/Gwarcheidwad yn cytuno y byddant yn:**

- Sicrhau fod ganddynt gopi o 'Llyfr Rheolau' yr Uned Cludiant Teithwyr ac yn ymgymryd i ddarllen cynnwys y ddogfen.
- Sicrhau fod y disgybl a enwir ar y ffurflen gais yn deall yn llawn y rheolau sy'n berthnasol iddo ef/hi.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau fod y plentyn a enwir ar y ffurflen hon yn gwybod am ei hawliau ac oblygiadau cyfreithiol.
  - Mae gan eich plentyn hawl i gael cerbyd diogel a thaith ddiogel a di-straen.
  - Mae'n oblygiad cyfreithiol ar eich plentyn i beidio ymddwyn mewn unrhyw ffordd a all effeithio ar eu diogelwch eu hunain, y gyrrwr, hebryngydd, unrhyw deithiwr arall neu unrhyw ddefnyddiwr ffordd arall.
- Sicrhau fod eu plentyn yn deall yn glir na ddylent byth dynnu sylw'r gyrrwr a'u bod yn gwybod os ydynt yn camymddwyn y gall y ddarpariaeth cludiant gael ei dileu ar unwaith ar sail iechyd a diogelwch.
- Sicrhau fod eu plentyn yn deall mai'r gyrrwr yn gyfreithiol sydd â'r gair terfynol am bwy mae'n eu cario. Ni all y gyrrwr wneud i'ch plentyn adael y cerbyd en route. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'ch plentyn ddeall y gall y gyrrwr yn gyfreithiol wrthod mynediad i'ch plentyn i'r cerbyd ar unrhyw amser ar sail iechyd a diogelwch pawb arall.
- Sicrhau fod eu plentyn yn deall os nad ydynt yn ymddwyn ar gerbyd eu bod yn torri'r gyfraith ac y gellir eu herlyn os deuir ag achos yn eu herbyn gan y gyrrwr, y cwmni cludiant neu'r Uned Cludiant Teithwyr.
- Sicrhau os yw eu plentyn yn profi unrhyw broblemau ar y bws, megis bwlio, bod yn rhaid iddynt roi adroddiad ar hyn fel y gellir cymryd camau cyn gynted ag sy'n bosibl i unioni'r sefyllfa. Gall plentyn roi gwybod am hyn i riant, yr ysgol, yr Uned Cludiant Teithwyr, y gyrrwr, BUSK, Kidscape neu Childline.
- Sicrhau fod eu plentyn yn deall yn glir fod yn rhaid gwisgo gwregysau diogelwch bob amser yn ystod y daith lle mae rhai ar gael.
- Defnyddio lluniau teledu cylch cyfyng, lle mae hynny wedi'i osod ac ar gael ar gerbydau cludiant Cartref i Ysgol, fel ffordd i gefnogi unrhyw ran a fu gan ddisgybl mewn digwyddiad neu gŵyn.

## **TELERAU A CHYTUNDEB CLUDIANT YSGOL**

## **1. CLUDIANT YSGOL A CHOLEG (Cyn 16) - POLISI CYFFREDINOL**

Mae polisi presennol yr Awdurdod ar gyfer darparu cludiant am ddim fel a ganlyn:

- (a) Mae gan ddisgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy (hyd at 16 oed) hawl i wneud cais am Gludiant Cartref i'r Ysgol am ddim. Er mwyn cymhwyso, mae'n rhaid cyflawni un o'r meini prawf dilynol:  
Mae disgyblion sy'n mynychu eu hysgol **dalgylch** neu ysgol **agosaf ar gael** ac yn byw mwy na **1.5 milltir** ar oedran cynradd, **2 filltir** ar oedran uwchradd. Nid yw bob amser yn bosibl trefnu i lwybrau cerbydau basio'n agos at gartrefi disgyblion. Felly, gall fod angen i **rieni wneud trefniadau ar gyfer eu plant/plentyn gyrraedd y pwynt 'codi' agosaf** y cerbyd. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter yma mor fyr ag sy'n bosibl ac ni ddylai fod mwy na 1 filltir ar hyd ffordd ddiogel ar gyfer cerddwyr. **(Caiff pellterau eu mesur yn electronig yn defnyddio'r pellter cerdded byrraf, mwyaf diogel rhwng y cartref a'r brif fynedfa i'r ysgol).**
- (b) Os yw rhiant yn dewis anfon eu plant/plentyn i ysgol allan o'r dalgylch, darperir cludiant os mai'r ysgol honno yw'r ysgol **agosaf** at gyfeiriad eu cartref ac yn diwallu'r meini prawf pellter a nodir uchod.
- (c) Lle mae'r Awdurdod yn fodlon fod y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol yn ddigon peryglus i haeddu darpariaeth cludiant, bydd yr Awdurdod yn gwneud ei benderfyniad gan roi ystyriaeth i'r ddwy ffactor ddilynol:
- (i) Mae bws gwasanaeth cyhoeddus yn teithio ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol
- (ii) Bod maint y perygl cysylltiedig yn golygu bod yr oedolion hebrwng eu hunain mewn risg o'r sefyllfa traffig neilltuol.
- (d) Gall disgyblion ddefnyddio seddi gwag ar fysis ysgol fel addefiad. Fodd bynnag, codir ffioedd ar gyfer defnydd seddau gwag dan delerau Polisi'r Cyngor ar gyfer Ffioedd ar gyfer Lleoedd Rhatach.
- (e) Fel arfer ni chaiff treuliau yn gysylltiedig â theithio i ac o'r ysgol eu had-dalu fel arfer. Fodd bynnag, gwneir eithriadau mewn amgylchiadau unigol a byddant ar ddisgresiwn yr Uned Cludiant Teithwyr.
- (f) Ni ddarperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n symud cartref i gyfeiriad y tu allan i ddalgylch yr ysgol a fynychir os nad yw'r symud yn digwydd yn ystod blynyddoedd **10-11** addysg gyfun y **gellir darparu'r cludiant** ar gontract presennol neu wasanaeth cyhoeddus. Ni fydd cludiant a ddarperir mewn amgylchiadau o'r fath yn ystod blynyddoedd 10 a 11 yn parhau i flwyddyn 12.
- (g) **Ni ddarperir** cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion preifat, ar gyfer y rhai mewn gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol neu addysg feithrin.
- (h) **Ni ddarperir** cludiant am ddim i ddisgyblion/myfyrwyr 16 oed a throsodd.

## **2. DATGANIAD TOCYN TYMOR**

Lle cyhoeddwyd tocyn tymor i fy mhlentyn/plant, rwyf drwy hyn yn cytuno dychwelyd y tocyn dan sylw pe byddai fy mhlentyn/plant yn gadael yr ysgol cyn diwedd y cyfnod. **Dylid dychwelyd y pas o fewn saith diwrnod i ddyddiad gadael yr ysgol.** Pe byddwn yn methu gwneud hynny rwyf drwy hyn yn cytuno i ad-dalu i'r Awdurdod pan ofynnir am hynny swm sy'n gyfartal â gwerth cyfran y tocyn tymor.

**Caiff yr wybodaeth a roddwch i'r Uned Cludiant Teithwyr ei defnyddio i ddyrannu eich plentyn/plant ar Gludiant Cartref i'r Ysgol. Wrth gyflawni ei oblygiadau diogelu data, bydd Cyngor Sir Fynwy yn trin yr holl ddata personol, a gedwir ar bapur ac ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda'r gofal dyladwy a gall yr wybodaeth gael ei rhannu gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag iechyd a lles plant ysgol. Caiff y defnyddiau hyn o wybodaeth bersonol eu cwmpasu gan gofrestru dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Lle mae teledu cylch cyfyng yn weithredol, gellir defnyddio'r lluniau i fonitro ymddygiad disgyblion. Gellir gofyn am ffotograffau digidol a'u cadw'n electronig ar gyfer diben cyhoeddi pasiau bws yn unig.**